# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Pensiynau'r Wladwriaeth

**Eich canllaw**

**Hydref 2014**

Adran Gwaith
a Phensiynau

# Cynnwys


**4** Cyflwyniad

**5** Pam bod angen pensiwn arnaf?

**6** Pryd y gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

**7** Sut y gallaf wneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

**8** Beth yw fy oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

**8** Codi Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66

**9** Sut y bydd codi oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar fudd-daliadau a thaliadau eraill y wladwriaeth

**15** Beth yw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?

**15** Sut wyf yn cael fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol

**15** Beth sy'n cyfri fel blwyddyn gymhwyso

**16** Beth yw'r flwyddyn dreth?

**18** Cael blynyddoedd cymhwyso tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol drwy waith â thâl

**23** Cael credydau Yswiriant Gwladol

**24** Talu cyfraniadau gwirfoddol

**25** Gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

**26** Beth fydd yn digwydd os daw fy mhriodas neu bartneriaeth sifil i ben?

**27** Beth fydd yn digwydd os bydd fy ngŵr, fy ngwraig neu fy mhartner sifil yn marw?

**27** Symiau eraill a delir ym Mhensiwn y Wladwriaeth

**27** Faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y byddaf yn ei gael?

**29** Pensiwn y Wladwriaeth a Threth Incwm

**30** Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

**30** Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)

**30** Ail Bensiwn y Wladwriaeth

**31** Sut y caiff Ail Bensiwn y Wladwriaeth ei weithio allan?

**32** Rwy'n ofalwr. A allaf gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth?

**33** Rwy'n sâl neu'n anabl. A allaf gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth?

**34** Sut mae cael Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol?

**35** Eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (ei adael)

**36** Enghreifftiau o sut y gall Ail Bensiwn y Wladwriaeth helpu

**37** Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a etifeddir

**37** Budd-dal Ymddeol Graddedig

**40** Oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth

**41** Rhannu pensiynau

**42** Os byddaf yn gweithio dramor, a allaf gael Pensiwn y Wladwriaeth?

**43** A allaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth dramor?

**43** Dychwelyd i Brydain Fawr, neu gyrraedd yma

**44** Beth yw swm tebygol fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

**44** Pensiwn y Wladwriaeth anghyfrannol ar gyfer pobl dros 80 oed

**45** Credyd Pensiwn

**46** Deddf Cydnabod Rhyw 2004

**47** Ble y gallaf gael mwy o help?

**49** Rhestr termau

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 ar y Pensiwn y Wladwriaeth ar hyn o bryd.

Mae'r symiau a ddyfynnir yn y daflen hon yn berthnasol o fis Ebrill 2014 ac fel arfer yn newid pob mis Ebrill.

**Newididau pwysig i Bensiwn y Wladwriaeth**

Mae'r llywodraeth yn newid Pensiwn y Wladwriaeth o fis Ebrill 2016. Bydd y Pensiwn y Wladwriaeth newydd yn berthnasol ar gyfer:

- dynion wedi eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, a
- merched wedi eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.

O fis Rhagfyr 2018, mae'r llywodraeth hefyd yn cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched, a fydd yn dechrau cynyddu i gyrraedd 66 ym mis Hydref 2020.

Bydd newidiadau pellach yn cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn raddol i 67 rhwng 2026 a 2028.

Os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth eisoes, neu rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, bydd y rheolau presennol yn berthnasol i chi. Bydd hyn hefyd yn cynnwys os ydych yn parhau, neu ddechrau, gohirio eich pensiwn ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Os yw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016, bydd eu Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei effeithio arno. Bydd unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth a gewch ar sail cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu Bensiwn y Wladwriaeth eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn seiliedig ar eu cofnod cyfrananiadau Yswiriant Gwladol hwy am y cyfnod hyd at 5 Ebrill 2016 ac ni fydd yn cynnwys unrhyw gyfraniadau maent yn wneud ar ôl y dyddiad hwnnw.

Am fwy o wybodaeth am y newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth ewch i **www.gov.uk/new-state-pension**

# Pam bod angen pensiwn arnaf?

Mae pawb yn byw'n hŷn, sy'n beth da. I fanteisio'n llawn ar hyn, mae angen i chi ystyried sut y byddwch yn talu am eich ymddeoliad. Heddiw yw'r amser gorau i ddechrau paratoi.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn ddechrau da ond efallai y byddwch am ystyried ychwanegu ato gyda'ch pensiwn eich hun.

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau cynilo. Hyd yn oed os byddwch ond yn cynilo swm bach, bydd unrhyw arian rydych yn ei gynilo'n gynnar yn eich bywyd yn debygol o gronni dros amser. A pho gynharaf y byddwch yn dechrau cynilo, y mwyaf o arian y byddwch yn debygol o'i gael pan fyddwch yn ymddeol.

Mae rhai o'r pethau y mae angen i chi eu hystyried yn cynnwys:

- faint rydych yn ei ennill
- y math o swydd sydd gennych
- p'un a ydych yn gweithio i rywun arall neu i chi eich hun
- faint o arian y credwch y bydd ei angen arnoch pan fyddwch yn ymddeol, ac
- am ba hyd rydych yn bwriadu gweithio.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/plan-retirement-income**

# Pryd y gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Ni fyddwch yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth yn awtomatig. Bydd yn rhaid i chi wneud cais amdano.

Os ydych eisoes yn cael budd-daliadau gennym ni, dylem fod gyda digon o wybodaeth amdanoch chi i ddechrau talu eich Pensiwn y Wladwriaeth i chi.

Byddwn yn cysylltu â chi os byddwn eisiau mwy o wybodaeth, neu os ydym angen siarad am eich opsiynau oherwydd eich bod yn cael budd-daliadau penodol.

Dim ond os ydych eisiau oedi (gohirio) gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ydych angen cysylltu â ni (gweler tudalen 37).

Mae tudalennau 10 i 15 yn dangos pryd y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth i weithio allan eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth hefyd.

**www.gov.uk/calculate-state-pension**

Efallai na fydd eich taliadau yn dechrau ar yr union ddiwrnod y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth - efallai y bydd ychydig ddiwrnodau o fwlch. Y rheswm am hyn yw bod Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei dalu ar sail wythnosau cyfan ar 'ddiwrnod talu' penodol sy'n dibynnu ar eich rhif Yswiriant Gwladol.

Nid oes rhaid i chi wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os nad oes angen yr arian arnoch ar unwaith, gallech oedi (gohirio) cyn gwneud cais amdano (gweler tudalen 38).

Os byddwch yn penderfynu parhau i weithio ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth o hyd tra byddwch yn gweithio. Ni fydd eich enillion na'r oriau rydych yn eu gweithio yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth, ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth hyd yn oed os nad ydych yn gweithio, yn dibynnu ar faint o incwm sydd gennych.

Gall nifer o bethau effeithio ar faint o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch - sonnir am rai ohonynt yn y canllaw hwn.

## Sut y gallaf wneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atoch bedwar mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth er mwyn dweud wrthych sut y gallwch wneud cais. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni gael eich cyfeiriad cyfredol, felly rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn dweud wrthym os byddwch yn symud.

Os na fyddwch wedi cael llythyr gennym dri mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth a'ch bod am wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â ni.

**www.gov.uk/claim-state-pension-online**

Ffôn **0800 731 7898** (**0800 731 7936** os ydych yn siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru)

Ffôn testun **0800 731 7339** (**0800 731 7013** os ydych yn siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru)

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am ac 6pm.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu gallwn ddarparu un. Mae ein llinellau ffôn yn dueddol o fod yn llai prysur yn y prynhawn a thuag at ddiwedd yr wythnos, felly efallai y byddai'n well gennych ffonio bryd hynny. Rydym yn recordio galwadau i'n helpu i ddarparu gwasanaeth cywir a chyson ac am resymau hyfforddiant a diogelwch.

# Beth yw fy oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae'r dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn dibynnu ar pryd y cawsoch eich geni.

Ar hyn o bryd, 65 yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a anwyd cyn 6 Rhagfyr 1953.

Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched a anwyd ar ôl 5 Ebrill 1950 ond cyn 6 Rhagfyr 1953 yn amrywio rhwng 60 a 65.

Mae Tabl 1 ar dudalennau 10 i 11 yn dangos oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951 ond cyn 6 Ebrill 1953.

# Codi oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66

O fis Rhagfyr 2018 bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn dechrau codi nes y bydd yn cyrraedd 66 oed ym mis Hydref 2020.

Bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch os ganwyd chi ar neu ar ôl 6 Rhagfyr 1953 ond cyn 6 Ebrill 1960.

Mae tablau 2 a 3 ar dudalennau 12 i 13 yn dangos oedran Pensiwn y Wladwriaeth i'r dynion a'r merched hyn.

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i 67 rhwng 2026 a 2028, a 68 rhwng 2044 a 2046.

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i adolygu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn rheolaidd. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gwblhau cyn mis Mai 2017.

Am ragor o wybodaeth ar newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth ewch i

**www.gov.uk/calculate-state-pension**

# Sut y bydd codi oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar fudd-daliadau a thaliadau eraill y wladwriaeth

Er mwyn cael rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol, mae'n rhaid i chi fod o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Credyd Cynhwysol. Mae codi oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn golygu bod y terfyn oedran uchaf y gall merched gael y budd-daliadau hyn yn codi'n raddol yn unol â'u hoedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r terfyn oedran i ddynion a merched ar gyfer Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol a rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill yn codi hefyd.

Mae'r oedran y gallwch gael Credyd Pensiwn - yr oedran cymhwyso - yn codi yn unol â'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched i 65, a'r cynnydd pellach i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1952 byddwch eisoes wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn. Os cawsoch eich geni ar ôl y dyddiad hwn edrychwch ar y tablau isod i weld ar ba ddyddiad y byddwch yn cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn neu ar ba ddyddiad y bydd eich hawl i gael Cymhorthdal Incwm yn dod i ben.

Cyn y gallwn ystyried dyn neu ferch am eu Taliad Tanwydd Gaeaf cyntaf, mae'n rhaid eu bod wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched erbyn diwedd wythnos gymhwyso mis Medi.

**Tabl 1: Eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1952 ond cyn 6 Ebrill 1953.**

| Eich dyddiad geni | Y dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch neu'r oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn i ddynion a merched |
|---|---|
| 6 Ebrill 1952 i 5 Mai 1952 | 6 Mai 2014 |
| 6 Mai 1952 i 5 Mehefin 1952 | 6 Gorffennaf 2014 |
| 6 Mehefin 1952 i 5 Gorffennaf 1952 | 6 Medi 2014 |
| 6 Gorffennaf 1952 i 5 Awst 1952 | 6 Tachwedd 2014 |
| 6 Awst 1952 i 5 Medi 1952 | 6 Ionawr 2015 |
| 6 Medi 1952 i 5 Hydref 1952 | 6 Mawrth 2015 |
| 6 Hydref 1952 i 5 Tachwedd 1952 | 6 Mai 2015 |
| 6 Tachwedd 1952 i 5 Rhagfyr 1952 | 6 Gorffennaf 2015 |
| 6 Rhagfyr 1952 i 5 Ionawr 1953 | 6 Medi 2015 |
| 6 Ionawr 1953 i 5 Chwefror 1953 | 6 Tachwedd 2015 |
| 6 Chwefror 1953 i 5 Mawrth 1953 | 6 Ionawr 2016 |
| 6 Mawrth 1953 i 5 Ebrill 1953 | 6 Mawrth 2016 |

| Tabl 2: Eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953 ond cyn 6 Rhagfyr 1953. | |
|---|---|
| **Eich dyddiad geni** | **Y dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch neu'r oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn i ddynion a merched** |
| 6 Ebrill 1953 i 5 Mai 1953 | 6 Gorffennaf 2016 |
| 6 Mai 1953 i 5 Mehefin 1953 | 6 Tachwedd 2016 |
| 6 Mehefin 1953 i 5 Gorffennaf 1953 | 6 Mawrth 2017 |
| 6 Gorffennaf 1953 i 5 Awst 1953 | 6 Gorffennaf 2017 |
| 6 Awst 1953 i 5 Medi 1953 | 6 Tachwedd 2017 |
| 6 Medi 1953 i 5 Hydref 1953 | 6 Mawrth 2018 |
| 6 Hydref 1953 i 5 Tachwedd 1953 | 6 Gorffennaf 2018 |
| 6 Tachwedd 1953 i 5 Rhagfyr 1953 | 6 Tachwedd 2018 |

**Tabl 3: Eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ddyn neu'n ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Rhagfyr 1953 ond cyn 6 Ebrill 1968.**

| Eich dyddiad geni | Y dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth/ oedran cymhwyso ar gyfer Pensiwn Credyd |
|---|---|
| 6 Rhagfyr 1953 i 5 Ionawr 1954 | 6 Mawrth 2019 |
| 6 Ionawr 1954 i 5 Chwefror 1954 | 6 Mai 2019 |
| 6 Chwefror 1954 i 5 Mawrth 1954 | 6 Gorffennaf 2019 |
| 6 Mawrth 1954 i 5 Ebrill 1954 | 6 Medi 2019 |
| 6 Ebrill 1954 i 5 Mai 1954 | 6 Tachwedd 2019 |
| 6 Mai 1954 i 5 Mehefin 1954 | 6 Ionawr 2020 |
| 6 Mehefin 1954 i 5 Gorffennaf 1954 | 6 Mawrth 2020 |
| 6 Gorffennaf 1954 i 5 Awst 1954 | 6 Mai 2020 |
| 6 Awst 1954 i 5 Medi 1954 | 6 Gorffennaf 2020 |
| 6 Medi 1954 i 5 Hydref 1954 | 6 Medi 2020 |
| 6 Hydref 1954 i 5 Ebrill 1960 | pen-blwydd yn 66 oed |

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i 67 rhwng 2026 a 2028. Daeth Deddf Pensiynau 2014 â'r newid hwn ymlaen wyth mlynedd a bydd yn effeithio ar bawb a anwyd rhwng 6 Ebrill 1960 a 5 Ebrill 1969.

Newidiodd y llywodraeth hefyd y ffordd mae'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gyflwyno. Felly yn hytrach na chyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ddyddiad penodol, bydd pobl a anwyd rhwng 6 Ebrill 1960 a 5 Mawrth 1961 yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 66 oed a'r nifer penodol o fisoedd.

| **Tabl 4 Cynnydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 66 i 67.** | |
|---|---|
| **Dyddiad Geni** | **Dyddiad cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth** |
| 6 Ebrill 1960 - 5 Mai 1960 | 66 mlynedd ac 1 mis |
| 6 Mai 1960 -  5 Mehefin 1960 | 66 mlynedd a 2 fis |
| 6 Mehefin 1960 i 5 Gorffennaf 1960 | 66 mlynedd a 3 mis |
| 6 Gorffennaf 1960 - 5 Medi 1960 | 66 mlynedd a 4 mis |
| 6 Awst 1960 - 5 Medi 1960 | 66 mlynedd a 5 mis |
| 6 Medi 1960 i 5 Hydref 1960 | 66 mlynedd a 6 mis |
| 6 Hydref 1960 - 5 Tachwedd 1960 | 66 mlynedd a 7 mis |
| 6 Tachwedd 1960 - 5 Rhagfyr 1960 | 66 mlynedd a 8 mis |
| 6 Rhagfyr 1960 - 5 Ionawr 1961 | 66 mlynedd a 9 mis |
| 6 Ionawr 1961 - 5 Chwefror 1961 | 66 mlynedd a 10 mis |
| 6 Chwefror 1961 - 5 Mawrth 1961 | 66 mlynedd a 11 mis |
| 6 Mawrth 1961 - 5 Ebrill 1977* | 67 |

* Os ganwyd chi ar ôl 5 Ebrill 1969 ond cyn 6 Ebrill 1977, mae eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn 67 eisoes.

Gallwch ddefnyddio'r cyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth i weithio allan eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar y gyfraith fel mae'n sefyll nawr.

**www.gov.uk/calculate-state-pension**

## Beth yw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?

Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yw'r arian y gallech ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd faint o arian a gewch yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd gennych o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

## Sut mae cael fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol?

Mae'n bosibl y bydd hawl gennych i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, drwy gael eich trin fel petaech wedi eu talu neu drwy gael eich credydu â chyfraniadau (gweler tudalennau 18 i 24). Mae faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y gallech ei gael yn seiliedig ar nifer y 'blynyddoedd cymhwyso' y buoch yn talu cyfraniadau neu'n derbyn credydau cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn wraig briod neu'n wraig weddw ac wedi dewis talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd ostyngol fel cyflogai (a elwir weithiau yn 'stamp bychan' neu 'stamp gwraig briod'), nid yw'r blynyddoedd pan oeddech yn talu'r cyfraniadau hyn yn cyfrif fel blynyddoedd cymhwyso ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth.

## Beth sy'n cyfrif fel blwyddyn gymhwyso?

Os ydych yn gweithio, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) lle'r enilloch (neu cael eich credydu gydag ennill) lleifaswm. Yn 2014/2015 y lleiafswm £5,772.

Os ydych yn hunangyflogedig, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) lle rydych wedi talu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2. Mae'n rhaid i chi dalu rhain os ydych yn ennill o leiaf £5,885 y flwyddyn, ond gallwch eu talu'n wirfoddol os ydych yn ennill o dan y swm hwn.

Felly ar ddiwedd blwyddyn dreth rydych wedi ennill (neu wedi eich credydu gydag ennill) y lleiafswm neu fwy, neu wedi talu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2, yna mae hynny yn flwyddyn gymhwyso. Nid oes ots os oeddech yn gweithio'n rhan amser neu'n llawn amser.

# Beth yw'r flwyddyn dreth?

Y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill mewn un flwyddyn i 5 Ebrill yn y flwyddyn ganlynol.

Er enghraifft, mae blwyddyn dreth 2014/15 yn rhedeg o 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2015.

**Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010**

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010, 30 yw nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn (yn seiliedig ar y gyfraith fel mae'n sefyll ar hyn o bryd) i ferched a dynion.

Bydd angen i chi gael o leiaf un flwyddyn gymhwyso o gyfraniadau a dalwyd neu a gredydwyd er mwyn rhoi rhywfaint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth i chi. Bydd pob blwyddyn gymhwyso o gyfraniadau a dalwyd neu a gredydwyd yn werth 1/30 o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn, hyd at uchafswm o 30/30. Felly, bydd un flwyddyn gymhwyso yn rhoi 1/30 o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn i chi, bydd 15 o flynyddoedd cymhwyso yn rhoi hanner Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn i chi (15/30), a bydd 30 o flynyddoedd cymhwyso yn rhoi Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn i chi.

Os ydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn ennill mwy na swm penodol (gweler tudalen 18) bydd yn rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol hyd yn oed os oes gennych 30 o flynyddoedd cymhwyso yn barod. Y rheswm am hyn yw bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cyfrif tuag at fudd-daliadau eraill (er enghraifft, budd-daliadau salwch, diweithdra a phrofedigaeth) yn ogystal â Phensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn gymwys i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn yn 2014/15, bydd hawl gennych gael £113.10 yr wythnos. Os ydych yn gymwys i gael isafswm Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth (sy'n golygu bod gennych 1/30 o'r blynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn), bydd hawl gennych gael £3.77 yr wythnos.

# Cael blynyddoedd cymhwyso tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol drwy waith â thâl

Mae faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych yn eu talu yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill.

Os ydych yn gweithio i gyflogwr ac yn ennill rhwng £111 a £153 yr wythnos, ni chaiff unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol eu didynnu o'ch cyflog, ond cewch eich trin fel petaech wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. (£111 yr wythnos yw'r 'Terfyn Enillion Is' ar gyfer 2014/15.) Mae hyn yn golygu y gall fod gennych hawl o hyd i gael Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill, fel budd-daliadau salwch a diweithdra, er nad ydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Byddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am bob wythnos y byddwch yn ennill dros £153 pan fyddwch yn gweithio i gyflogwr. Gelwir y ffigur hwn yn 'Drothwy Sylfaenol'. Bydd eich cyflogwr yn didynnu'r cyfraniadau hyn o'ch cyflog.

Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun. Waeth faint y byddwch yn ei ennill, bydd yn rhaid i chi dalu cyfraniadau 'Dosbarth 2' cyfradd unffurf, oni bai bod gennych Dystysgrif Eithriad Enillion Bach sy'n dweud nad oes rhaid i chi dalu'r rhain. Gallwch gysylltu â Chyllid a Thollau EM i gael gwybod am hyn.

Er mwyn i flwyddyn gyfrif fel blwyddyn gymhwyso ar gyfer eich Pensiwn y Wladwriaeth, ar sail eich enillion yn 2014/15, mae angen i chi ennill o leiaf £111 yr wythnos, neu £5,772 y flwyddyn, yr ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol arno, neu wedi cael eich trin fel petaech wedi talu'r cyfraniadau arno.

Mae ffyrdd y gallwch gael blwyddyn gymhwyso hyd yn oed os ydych yn ennill swm isel (llai na £111 yr wythnos neu £5,772 y flwyddyn yn 2014/15) neu eich bod yn cymryd amser i ffwrdd o waith â thâl.

# Cael credydau Yswiriant Gwladol

Mae'n bosibl y gallwch gael credydau Yswiriant Gwladol pan na allwch weithio, fel y gall fod hawl gennych gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallai hyn ddigwydd am eich bod yn sâl, neu'n ddi-waith a'ch bod wedi eich cofrestru fel rhywun sy'n chwilio am waith. Gallech gael credydau gyda rhai budd-daliadau neu daliadau penodol, er enghraifft Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 a Lwfans Gofalwr.

Caiff y credydau hyn eu hychwanegu at unrhyw Yswiriant Gwladol rydych wedi'i dalu.

Bydd credydau Yswiriant Gwladol yn cyfrif tuag at flwyddyn gymhwyso ar gyfer Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth yn yr un ffordd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd amodau penodol y bydd angen i chi eu bodloni cyn y gallwch gael credyd, a bydd y rhain yn dibynnu ar pam na allwch weithio.

**Cael eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol os nad ydych yn gweithio neu os ydych yn ennill swm isel**

**Darllenwch y testun yn y blwch hwn os ydych yn ferch a anwyd cyn 6 Ebrill 1950, neu'n ddyn a anwyd cyn 6 Ebrill 1945.**

**Os gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010**

Os nad oeddech yn gweithio, efallai y cafodd eich hawl ei ddiogelu drwy gredydau Yswiriant Gwladol neu Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref (gweler tudalen 20). Neu efallai eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol (gweler tudalen 24).

Er mwyn bod yn gymwys i gael unrhyw Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, mae angen o leiaf un flwyddyn gymhwyso arnoch o gyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd neu a gaiff eu trin fel petaech wedi'u talu. Mae angen nifer benodol o flynyddoedd cymhwyso arnoch hefyd.

### Dynion sy’n nesáu at oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Os ydych yn ddyn sy’n nesáu at oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac nad ydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, efallai gallwch gael credydau Yswiriant Gwladol yn awtomatig. Gelwir y credydau hyn yn ‘awtogredydau’.

Mae’r rhain yn cael eu dileu’n raddol yn unol â’r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched.

### Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref

Am gyfnodau hyd at 5 Ebrill 2010, os oeddech yn gofalu am blentyn neu rywun â salwch neu anabledd hirdymor, efallai y caiff eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ei ddiogelu gan Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Efallai y gall ddiogelu eich hawl dros gyfnodau hyd yn oed pan nad oedd gennych waith â thâl, pan oedd eich enillion yn isel (o dan y Terfyn Enillion Is yn ystod unrhyw flwyddyn dreth) neu pan nad oeddech yn cael credydau Yswiriant Gwladol.

Roedd Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref ar gael ar gyfer blynyddoedd treth llawn rhwng mis Ebrill 1978 a mis Ebrill 2010. Roedd yn helpu i ddiogelu eich pensiwn drwy leihau nifer y blynyddoedd cymhwyso roedd eu hangen i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn. I gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn, ni allai Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref leihau nifer y blynyddoedd cymhwyso islaw 20 i ferched na dynion. Hefyd, nid oedd yn gwarantu y byddech yn cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

**Darllenwch y testun yn y blwch hwn os ydych yn ferch a anwyd cyn 6 Ebrill 1950, neu'n ddyn a anwyd cyn 6 Ebrill 1945.**

Gallech gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref os oeddech, am flynyddoedd treth llawn rhwng mis Ebrill 1978 a mis Ebrill 2010:

- yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn dan 16 oed
- yn ofalwr maeth cofrestredig (ar gyfer blynyddoedd treth o Ebrill 2003 yn unig)
- yn gofalu am rywun sâl neu anabl (am o leiaf 35 awr yr wythnos), a oedd yn cael Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl (cyfradd ganolig neu uchaf yr elfen ofal) neu Lwfans Gweini Cyson, neu
- yn cael Cymhorthdal Incwm ac roeddech yn gofalu am rywun a oedd yn sâl neu'n anabl.

Gallai mwy nag un o'r amodau hyn fod yn berthnasol i chi mewn blwyddyn benodol. Er enghraifft, gallech fod wedi cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed am ran o'r flwyddyn, ac yna weithredu fel gofalwr maeth cofrestredig am weddill y flwyddyn honno.

**Os gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008. Trosglwyddo Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref i'r person sydd ei angen fwyaf**

Dim ond y person a oedd yn hawlio Budd-dal Plant a allai gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn awtomatig ac roedd hyn yn helpu i ddiogelu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y person hwnnw.

Fodd bynnag, os oedd eich partner yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac y gallai fod hawl ganddo gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, yn ystod y cyfnod pan wnaethoch roi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am eich plant, rydych chi yn fwy tebygol na'ch partner o fod angen help i ddiogelu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Os buoch yn gofalu am blentyn ond bod eich partner wedi hawlio Budd-dal Plant ac nad oes angen Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref arno, yna gallwch drosglwyddo Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref i'ch cyfrif chi. Dylech wneud cais gan ddefnyddio ffurflen CF411.

I gael copi o ffurflen CF411 **www.hmrc.gov.uk/home-responsibilities-protection-hrp**

Mae angen i chi fod wedi byw gyda'ch partner a rhannu'r gofal am blentyn ym mhob blwyddyn rydych am i Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref gael ei drosglwyddo i chi.

**Darllenwch y testun yn y blwch hwn os ydych yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950, neu'n ddyn a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1945.**

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 ac nad oeddech wedi gweithio am gyfnodau, mae'n bosibl y cewch gredydau Yswiriant Gwladol fel y bydd hawl gennych i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Efallai hefyd eich bod wedi talu neu y gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol.

## Cyflwyno credydau Yswiriant Gwladol newydd yn lle Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref

Mae Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn cael ei ddisodli i bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010.

# Credydau ar gyfer rhieni a gofalwyr

O 6 Ebrill 2010, efallai y gall rhieni a gofalwyr gael blynyddoedd cymhwyso drwy gredydau wythnosol newydd ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gweler tudalen 30 am wybodaeth am Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth). Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr, mae'n bosibl y gallwch gael credyd am bob wythnos y byddwch:

- yn cael Budd-dal Plant ar gyfer o leiaf un plentyn o dan 12
- yn ofalwr maeth a gymeradwywyd, neu
- yn gofalu (am o leiaf 20 awr yr wythnos) am o leiaf un person sy'n cael Lwfans Gweini, yr elfen bywyd bob dydd o Daliad Annibyniaeth Personol Lwfans Byw i'r Anabl (cyfradd ganolig neu uchaf yr elfen ofal), Lwfans Gweini Cyson neu Daliad Annibyniaeth Lluoedd Arfog.

Byddwn hefyd yn rhoi credyd i bobl sy'n treulio o leiaf 20 awr yr wythnos yn gofalu am bobl anabl eraill, os caiff yr angen am ofal ei ardystio gan weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol.Nid oes terfyn ar nifer y blynyddoedd rhwng 6 Ebrill 2010 a'r dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan allwch gael y credydau hyn, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r amodau.

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010, mae unrhyw flynyddoedd o Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref a oedd gennych eisoes wedi'u trosi yn flynyddoedd cymhwyso ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o dan y rheolau newydd. Gallwch gael hyd at 22 o flynyddoedd wedi'u trosi yn y modd hwn.

Mae Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref hefyd yn cyfrif tuag at fudd-daliadau profedigaeth. Byddwn wedi'i drosi yn flynyddoedd cymhwyso, pan fo budd-daliadau profedigaeth yn cael eu hawlio am gymar neu bartner sifil a fu farw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010.

### Credydau Gofal Plant Oedolyn Penodol

Cyflwynwyd credydau Gofal Plant Oedolyn Penodol gan y Llywodraeth o'r flwyddyn dreth 2011/2012. Efallai y gallwch gael y credydau hyn os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu o dan 12 ac rydych yn oedolyn o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r credydau hyn yn cyfri tuag at Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a rhai budd-daliadau profedigaeth.

Bydd rhaid i chi wneud cais am y credydau hyn; ni fyddant yn cael eu hychwanegu'n awtomatig i'ch cofnodau cyfraniad YG.

Mae rhagor o wybodaeth arlein
**www.gov.uk/boost-state-pension/eligibility**

## Talu cyfraniadau gwirfoddol

Mae'n bosibl y gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol i gwmpasu blynyddoedd blaenorol nad oes gennych ddigon o gyfraniadau ar eu cyfer. Fel arfer mae'n rhaid i chi dalu'r cyfraniadau gwirfoddol o fewn chwe blynedd i ddiwedd y flwyddyn dreth y mae'r taliad ar ei chyfer. Fodd bynnag roedd trefniadau arbennig mewn lle ar gyfer y grwpiau canlynol:

- Pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2015. Efallai y gallwch dalu am rhywfaint o flynyddoedd ychwanegol o hyd.
- Pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016.

Am ragor o wybodaeth **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

### Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

Os byddwch yn mynd i gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, efallai y bydd gennych hawl i wneud cyfandaliad gwirfoddol o gyfraniadau ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth. Byddai'r cyfraniadau yn gadael i chi gynyddu eich incwm pensiwn i fyny at £25 yr wythnos. Gellir gwneud cyfraniadau ychwanegu at Bensiwn y Wladwriaeth o fis Hydref 2015.

Am fwy o wybodaeth, chwiliwch am 'Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol' ar GOV.UK.

# Gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

**Os nad ydw i wedi talu neu wedi cael fy nghredydu â digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, sut y gallaf wella fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?**

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac bod eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun:

- ddim yn ddigon i roi unrhyw Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth eich hun i chi, neu
- yn golygu y byddwch yn cael llai na £67.80 yr wythnos o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth,

efallai y gallwch gael rhywfaint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod neu bartner sifil. Rydym yn defnyddio'r gair priod i olygu'r person rydych yn briod â hwy.

Os ydych yn **ferch yn briod gyda dyn** efallai y gallech gael rhywfaint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich gŵr os yw wedi cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych:

- yn ŵr priod
- yn ferch yn briod â merch, neu
- yn bartner sifil

efallai y gallwch gael rhywfaint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod neu bartner sifil os oedd hi neu ef:

- wedi eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950, a
- wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn ferch yn briod â merch sy'n newid eu rhyw cyfreithiol o wrywaidd i fenywaidd ar ôl dechrau eich priodas, efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio ei chyfraniadau hi hyd yn oed os ganwyd hi cyn 6 Ebrill 1950. Mae hyn yr un triniaeth â phe bae hi heb newid ei rhyw cyfreithiol.

Yn dibynnu ar faint o gyfraniadau mae eich priod neu bartner sifil wedi wneud, efallai y gallech gael gwell Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o hyd at £67.80, gan gynnwys unrhyw Bensiwn sylfaenol eich hun. Cyn belled â bod hwy wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth nid oes rhaid i'ch priod neu bartner sifil fod wedi gwneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth eu hunain, ac nid oes rhaid i chi fod yn byw gyda hwy i gael y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth hwn.

Os yw eich priod neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 byddant yn cael y Pensiwn y Wladwriaeth newydd. Bydd y rheolau presennol ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol o hyd os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw, ond byddwch ddim ond yn gallu defnyddio'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a wnaethant am flynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/16 i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

## Beth fydd yn digwydd os daw fy mhriodas neu bartneriaeth sifil i ben?

Mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyn-ŵr, cyn-wraig neu gyn-bartner sifil i helpu i gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth os:

- rydych wedi ysgaru
- mae eich priodas wedi'i dirymu, neu
- mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu (terfynu'n gyfreithiol) neu ei dirymu.

Ni fydd hyn yn effeithio ar Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth eich cyn-bartner. Os byddwch yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn gallu defnyddio cyfraniadau eich cyn-bartner.

Os bydd eich priod neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 byddant yn cael y Pensiwn y Wladwriaeth newydd.  Bydd y rheolau presennol ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol o hyd os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw, ond byddwch ddim

ond yn gallu defnyddio'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a wnaethant am flynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/16 i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

## Beth fydd yn digwydd os bydd fy ngŵr, fy ngwraig neu fy mhartner sifil yn marw?

Os bydd eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil yn marw, mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio eu cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol i'ch helpu i gael Pensiwn y Wladwriaeth gwell.

Os nad ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto a bod eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil yn marw, mae'n bosibl y gallwch gael budd-daliadau profedigaeth (o dan y Cynllun Budd-daliadau Profedigaeth).

Os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac nad oedd gan eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eu cofnod eu hunain o gyfraniadau Yswiriant Gwladol pan fuont farw, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael Taliad Profedigaeth. Cyfandaliad yw hwn a delir yn syth ar ôl i'ch gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil farw. Os ydych yn ferch sydd eisoes yn cael budd-daliadau o dan y Cynllun Budd-dal Gwraig Weddw blaenorol (i ferched a wnaed yn weddw ar neu cyn 8 Ebrill 2001), gallwch barhau i gael y budd-daliadau hyn cyhyd â'ch bod yn bodloni'r amodau. Ni fyddwch yn gallu cael budd-daliadau profedigaeth.

Os yw eich priod neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 byddant yn cael y Pensiwn y Wladwriaeth newydd. Bydd y rheolau presennol ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol o hyd os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw, ond byddwch ddim ond yn gallu defnyddio'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a wnaethant am flynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/16 i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Ni fyddwch yn gallu defnyddio cyfraniadau eich diweddar bartner os ydych yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

# Symiau eraill a delir ym Mhensiwn y Wladwriaeth

**Cynnydd Dibyniaeth Oedolion**

O 6 Ebrill 2010, ni fyddwch yn gallu cael Cynnydd Dibyniaeth Oedolion newydd mwyach. Os oes gennych eisoes hawl i'r cynnydd hwn ar 5 Ebrill 2010, byddwch yn gallu ei gadw tan na fyddwch yn bodloni'r amodau ar gyfer y cynnydd mwyach, neu tan 5 Ebrill 2020, p'un bynnag a fydd gyntaf.

Efallai y bydd gennych hawl i help arall tuag at dalu eich rhent a threth cyngor. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

# Faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y byddaf yn ei gael?

Yn 2014/15 £113.10 yr wythnos yw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn i berson sengl. Efallai y cewch lai os nad oes gennych y nifer uchafswm o flynyddoedd cymhwyso.

Ers mis Ebrill 2011, mae Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cynyddu bob blwyddyn yn ôl pa un bynnag o'r canlynol sydd uchaf:

- enillion - y twf cyfartalog mewn cyflogau (ym Mhrydain Fawr)
- prisiau - y cynnydd canrannol mewn prisiau (yn y DU)
- 2.5 %.

# Pensiwn y Wladwriaeth a Threth Incwm

Pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol mwyach. Ond nid ydych yn rhoi'r gorau i dalu treth yn awtomatig.

Efallai bydd rhaid i chi dalu treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth ac ar unrhyw bensiynau cwmni neu bersonol yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm. Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei dalu cyn i unrhyw dreth gael ei dynnu i ffwrdd, ond fel arfer mae pensiynau cwmni a phersonol yn cael treth wedi ei dynnu i ffwrdd gyntaf.

Pan fyddwch yn ystyried a ddylech wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ar unwaith neu oedi cyn gwneud hynny (gweler tudalen 39), bydd angen i chi ystyried sut y cewch eich trethu. Mae hyn yn berthnasol i'ch cyflog (os ydych yn gweithio) ac i unrhyw incwm arall, er enghraifft, pensiwn preifat.

Os byddwch yn gweithio ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth ar yr un pryd. Ni fydd eich enillion na'r oriau rydych yn eu gweithio yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth, ond byddwch efallai yn talu treth ar eich pensiwn yn ogystal ag ar eich enillion, yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill.

Pan fyddwch yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth byddwn yn dweud wrth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi faint o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch a'r dyddiad y byddwch yn dechrau ei gael.

Efallai y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn anfon llythyr hysbysu cod Talu Wrth Ennill atoch yn dangos eich cod treth. Bydd y llythyr yn egluro sut mae'r cod treth wedi ei weithio allan a sut bydd y treth yn cael ei gasglu. Fel arall bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cysylltu â chi os byddwch angen llenwi ffurflen dreth. Mae rhagor o wybodaeth yn

**www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age**

Mae treth yn cael ei godi ar rai budd-daliadau'r wladwriaeth, ond dim y cwbl. Mae'n bwysig eich bod yn gwybod pa rai sy'n drethadwy.

Mae rhagor o wybodaeth yn

**www.gov.uk/taxable-income/state-benefits-that-are-taxable**

Am ragor o wybodaeth am Dreth Incwm a chyfraddau treth

**www.gov.uk/income-tax-rates**

# Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

## Beth yw Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Arian ychwanegol y mae'n bosibl y gallwch ei gael ar ben eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yw Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Bydd faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a gewch yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill (neu'n cael eich trin fel petaech wedi ei ennill) a faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi'u talu, neu'n cael eich trin fel petaech wedi'u talu (ers 6 Ebrill 1978).

Gall eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth gynnwys:

- Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)
- Ail Bensiwn y Wladwriaeth, neu
- y ddau.

## Pryd y gallaf gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Gallwch gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (SERPS ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth) pan fyddwch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

## Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)

Mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth drwy SERPS.

Bydd faint y gallwch ei gael yn dibynnu ar faint rydych wedi'i ennill, a faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi'u talu (neu'n cael eich trin fel petaech wedi'u talu) cyn 2002. Mae hefyd yn dibynnu ar p'un a ydych wedi cael eich eithrio o SERPS gan eich cyflogwr ac eich rhoi mewn pensiwn gweithle (galwedigaethol). Os ydych wedi eithrio o SERPS, bydd hyn yn lleihau faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y gallech ei gael. Os oeddech yn gweithio i chi eich hun cyn 2002 ac yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 yn ystod y cyfnod hwnnw, ni fydd hyn wedi cyfrif tuag at SERPS.

Newidiodd y Llywodraeth gynllun SERPS pan gyflwynodd Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn 2002. Caiff unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a gewch drwy SERPS cyn 2002 ei ychwanegu i'ch Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

## Ail Bensiwn y Wladwriaeth

Cyflwynodd y llywodraeth Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn 2002. Mae Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn rhoi'r cyfle i bobl sy'n ennill cyflogau is, neu na allant weithio cymaint â phobl eraill, gael Pensiwn y Wladwriaeth gwell.

Mae'n bosibl y gallwch gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth:

- os ydych yn gyflogai sy'n ennill dros £5,772 y flwyddyn (yn 2014/15) o unrhyw un swydd, neu
- os ydych yn ofalwr neu'n rhywun â salwch neu anabledd hirdymor.

Os ydych wedi gweithio i chi eich hun ac wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 am unrhyw gyfnod ers 2002, ni fydd hyn yn cyfrif tuag at Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

I gael yr hawl i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, mae'n rhaid eich bod yn bodloni'r amodau canlynol:

- bod gennych enillion sy'n uwch na Therfyn Enillion Is Yswiriant Gwladol drwy gydol y flwyddyn dreth
- eich bod yn ofalwr drwy gydol y flwyddyn dreth, neu
- bod gennych salwch neu anabledd hirdymor drwy gydol y flwyddyn dreth.

Ni allwch gyfuno cyfnodau pan oeddech yn ennill cyflog, yn gofalu am rywun neu'n sâl o fewn blwyddyn dreth er mwyn ennill yr hawl i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth am gyfnodau cyn 2010.

Os ydych yn gweithio i gyflogwr ac rydych yn ennill mwy na £5,772 y flwyddyn (yn 2014/15), byddwch yn cael eich cynnwys yn y cynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Os oes gan eich cyflogwr gynllun pensiwn gweithle yn berthnasol i incwm (buddiant diffiniedig) wedi ei eithro rydych yn gymwys i ymuno ag ef, mae'n bosibl eithrio (gadael) Ail Bensiwn y Wladwriaeth i adeiladu budd-daliadau yn y cynllun pensiwn gweithle (galwedigaethol).

Byddwch chi, a'ch cyflogwr yn talu cyfraddau is o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Trefniant yw cynllun pensiwn buddiant diffiniedig mae rhai cyflogwyr yn sefydlu, gyda safonau isafswm wedi eu gosod mewn cyfraith, i roi pensiwn i'r bobl sy'n gweithio iddynt pan fyddant yn ymddeol. Bydd y rhan fwyaf neu'r cwbl o'ch Ail Bensiwn y Wladwriaeth wedyn yn dod o gynllun eich cyflogwr. Ni effeithir ar eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am eithrio ar dudalen 35.

## Sut y caiff Ail Bensiwn y Wladwriaeth ei weithio allan?

Os oes gennych hawl i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth, mae'r swm a gewch yn seiliedig ar:

- yr enillion rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd safonol arnynt, neu
- yr enillion y cewch eich trin fel petaech wedi'u cael.

O dan y rheolau cyfredol, mae'n bosibl y cewch Ail Bensiwn y Wladwriaeth ar gyfraddau gwahanol yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill. O fis Ebrill 2010 ymlaen ceir dau fand enillion, fel a ganlyn:

- enillion ar y Terfyn Enillion Is (£5,772 yn 2014/15) hyd at y (ond heb fod yn uwch na'r) Trothwy Enillion Isel (£15,100 yn 2014/15),
- enillion dros y Trothwy Enillion Isel ond heb fod yn uwch na'r 'Terfyn Cronni Uwch' (£40,040).

O Ebrill 2014 byddwch yn cael swm cyfradd unffurf safonol o Ail Bensiwn y Wladwriaeth, sy'n werth £1.77 yr wythnos, am bob blwyddyn gymhwyso. Hefyd, mae pobl sy'n ennill mwy na'r Trothwy Enillion Isel â hawl i daliad perthnasol i incwm ychwanegol.

Os ydych eisiau gwybod faint fydd eich Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn debygol o fod, dylech gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 45)

## Rwy'n ofalwr. A allaf gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth?

Os ydych yn ofalwr, gallwch gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth os nad ydych yn gweithio o gwbl neu os ydych yn ennill llai na £5,772 y flwyddyn (yn 2014/15), a bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych yn gofalu am blentyn o dan 12 oed ac yn cael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwnnw (cyn mis Ebrill 2010 roedd yn rhaid i'r plentyn fod o dan 6 oed).
- Rydych yn treulio o leiaf 20 awr yr wythnos yn gofalu am berson ag anabledd difrifol.
- Rydych yn ofalwr maeth a gymeradwywyd.
- Mae hawl gennych i gael Lwfans Gofalwr – hyd yn oed os nad ydych yn ei gael am eich bod yn cael budd-dal arall sy'n talu mwy.

Mewn unrhyw un o'r achosion hyn, cewch eich trin fel petaech yn ennill ar y Trothwy Enillion Isel (£15,100 y flwyddyn yn 2014).

Os ydych yn ofalwr ac yn gymwys i Ail Bensiwn y Wladwriaeth, byddwch yn ennill £1.77 yr wythnos o Ail Bensiwn y Wladwriaeth am bob blwyddyn treth lawn rydych yn ofalwr. Byddwch yn derbyn hwn fel rhan o'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Nid oes terfyn i'r nifer o flynyddoedd sy'n cyfri yn y ffordd hon.

## Rwy'n sâl neu'n anabl. A allaf gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth?

Gallwch gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth os nad ydych yn gweithio o gwbl neu os ydych yn ennill llai na £5,772 y flwyddyn (yn 2014/15), a bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Mae hawl gennych gael Budd-dal Analluogrwydd hirdymor neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Byddai hawl gennych gael Budd-dal Analluogrwydd hirdymor neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ond ni chaiff ei dalu oherwydd budd-dal arall rydych yn ei gael neu nid oes hawl gennych i'w cael ond eich bod yn cyflwyno tystysgrifau meddygol at ddibenion credydau Yswiriant Gwladol yn unig.
- Rydych yn cael neu Lwfans Anabledd Difrifol a ddiogelir.

Os na allwch wneud gwaith â thal oherwydd eich bod yn sâl neu'n anabl, ac rydych yn gymwys i Ail Bensiwn y Wladwriaeth, byddwch yn ennill tua £1.77 yr wythnos o Ail Bensiwn y Wladwriaeth am bob blwyddyn dreth lawn rydych yn sâl neu'n anabl. Byddwch yn derbyn hwn fel rhan o'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Os hoffech wybod faint o Ail Bensiwn y Wladwriaeth rydych yn debygol o'i gael, dylech gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 45).

**Darllenwch y testun yn y blwch hwn os ydych yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950, neu'n ddyn a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1945.**

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010

Cyn 6 Ebrill 2010, bydd unrhyw gredydau rydych wedi'u cael am ofalu am rywun, salwch neu anabledd ond yn cyfrif tuag at eich Ail Bensiwn y Wladwriaeth os:

- buoch yn ofalwr drwy gydol y flwyddyn dreth, neu
- os oedd gennych salwch neu anabledd hirdymor drwy gydol y flwyddyn dreth.

O 6 Ebrill 2010, bydd newidiadau yn y rheolau yn eich galluogi i gyfuno unrhyw gredydau a ddyfarnwyd i chi yn ystod y flwyddyn dreth gydag unrhyw enillion dros y Terfyn Enillion Is. Mae hyn yn golygu y gall eich enillion a'ch credydau gyfrif tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth.

# Eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

## Beth yw eithrio?

Mae eithrio yn golygu gadael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (a elwir hefyd yn SERPS neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth) Ond gyda chyflwyniad y Pensiwn y Wladwriaeth newydd, bydd eithrio yn dod i ben ym mis Ebrill 2016.

## Cynlluniau pensiwn ar sail cyflog

Os ydych yn gyflogai, gallwch wneud hyn os ymunwch â chynllun pensiwn galwedigaethol ar sail cyflog (buddiant diffiniedig). Os ydych wedi eithrio ac yn aelod o gynllun ar sail cyflog, byddwch chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is.

# Enghreifftiau o sut y gall Ail Bensiwn y Wladwriaeth helpu

## Helpu enillwr isel

Mae Robin yn gweithio'n rhan amser mewn warws archfarchnad. Mae'n ennill £8,500 y flwyddyn. O dan y rheolau ar gyfer Ail Bensiwn y Wladwriaeth, caiff pobl sy'n ennill mwy na'r Terfyn Enillion Is (£5,772 yn 2014/15) ond llai na'r Trothwy Enillion Isel (£15,100 yn 2014/15) eu trin fel petai ganddynt enillion ar y trothwy enillion isel. Felly caiff Robin ei drin fel petai ganddo enillion o £15,100 (yn 2014/15), ac mae'n bosibl y bydd hawl ganddo gael rhywfaint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Helpu rhiant

Mae Neela yn 31 oed ac roedd wedi bod mewn gwaith llawn amser ers pan oedd yn 18 oed. Pan anwyd ei merch, Mina, ym mis Rhagfyr 2001, penderfynodd Neela roi'r gorau i weithio i ofalu amdani.

Neela a oedd wedi gwneud cais ac wedi cael Budd-dal Plant, felly roedd yn gymwys i gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref i ddiogelu ei Phensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Ar ôl cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, mae'n bosibl hefyd y gall gael rhywfaint o bensiwn drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth am bob blwyddyn dreth lawn ers 6 Ebrill 2002 - pan ddechreuodd Ail Bensiwn y Wladwriaeth - hyd at ben-blwydd Mina yn chwech oed ym mis Rhagfyr 2007. Felly efallai y bydd hawl gan Neela i gael rhywfaint o Ail Bensiwn y Wladwriaeth am bum mlynedd (o 6 Ebrill 2002 hyd at 5 Ebrill 2007).

O dan y rheolau newydd, gall fod gan Neela hawl i gael rhywfaint o Ail Bensiwn y Wladwriaeth am dair blynedd o 6 Ebrill 2010 hyd at ben-blwydd Mina yn 12 oed.

### Helpu rhywun sy'n sâl neu'n anabl

Roedd Derek wedi bod yn gweithio ers 37 mlynedd ac mae wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar gyfradd safonol fel cyflogai yn ystod pob un o'r blynyddoedd hyn, ond aeth yn sâl ym mis Medi 1999. Roedd yn rhy sâl i weithio, felly cafodd Fudd-dal Analluogrwydd hirdymor a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau hyd nes iddo gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mai 2010. Mae Derek yn gymwys i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth, yn seiliedig ar bob blwyddyn dreth lawn y cafodd Fudd-dal Analluogrwydd a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau rhwng 6 Ebrill 2002 (pan ddechreuodd Ail Bensiwn y Wladwriaeth) a'r dyddiad y bydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a etifeddir

### A allaf gael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth os wyf yn wraig weddw, yn ŵr gweddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi?

Os ydych yn wraig weddw, yn ŵr gweddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi, gallwch etifeddu:

- rhwng hanner a holl bensiwn SERPS eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil (mae'r swm a gewch yn dibynnu ar pryd y daethoch yn weddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi a phryd y cyrhaeddodd eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil oedran Pensiwn y Wladwriaeth), a
- hyd at hanner Ail Bensiwn y Wladwriaeth eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil.

Os byddwch yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn gallu etifeddu unrhyw ran o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil blaenorol.

Os bydd eich gŵr, eich gwraig neu eich partner sifil yn marw pan fyddwch o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth a bod gennych blant, mae'n bosibl yr etifeddwch Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth fel rhan o lwfans i riant gweddw.

Os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond tra maent o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y gallwch etifeddu rhan o'u Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ddim ond os:

- y cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ôl 6 Ebrill 2010, neu
- rydych yn ferch y bu ei gŵr farw, neu
- rydych yn ferch y bu ei phriod benywaidd farw ac mae wedi newid ei rhyw'n gyfreithiol o wryw i fenyw ar ôl i'ch priodas ddechrau.

Os bydd eich priod neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 byddant yn cael y Pensiwn y Wladwriaeth newydd.

Bydd y rheolau presennol ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol o hyd os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw, ond byddwch ddim ond yn gallu defnyddio'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a wnaethant am flynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/16 i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

## Budd-dal Ymddeol Graddedig

Os oeddech yn gyflogai ac yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol graddedig rhwng 6 Ebrill 1961 a 5 Ebrill 1975, mae'n bosibl y cewch rywfaint o arian ychwanegol gyda'ch Pensiwn y Wladwriaeth a elwir yn Fudd-dal Ymddeol Graddedig.

## Oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth

Nid oes rhaid i chi wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae penderfynu pryd i wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn bwysig. Os nad oes angen yr incwm o'ch Pensiwn y Wladwriaeth arnoch pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth (am eich bod yn dal i weithio neu'n cael incwm arall), gallech oedi cyn gwneud cais amdano yn ddiweddarach. Gelwir hyn yn 'gohirio' eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Os byddwch yn penderfynu oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth (ei ohirio) pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallech ddewis cael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad unigol.

## Sut i gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol

Er mwyn cael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol, mae angen i chi benderfynu peidio â gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am gyfnod o amser. Mae'n rhaid i chi oedi cyn gwneud cais am o leiaf bum wythnos er mwyn cynyddu faint o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch yn ddiweddarach.

Caiff eich Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol ei gyfrifo ar gyfradd o 1% am bob pum wythnos y byddwch yn oedi cyn gwneud cais. Mae hyn yn golygu tua 10.4% yn ychwanegol am bob blwyddyn lawn y byddwch yn oedi cyn gwneud cais amdano.

## Sut i gael cyfandaliad

Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, gallech ddewis cael cyfandaliad yn lle Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol. Dim ond os byddwch yn penderfynu oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 12 mis yn olynol y gallwch wneud hyn.

Rydym yn cyfrifo'r cyfandaliad drwy adio faint o Bensiwn y Wladwriaeth wythnosol y byddech wedi'i gael, a'r llog. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y cyfandaliad, yn dibynnu ar faint o incwm sydd gennych.

## Beth os wyf yn cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill?

Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth tra'n cael budd-daliadau eraill, ni fyddwch yn cronni unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad am y diwrnodau rydych yn cael y budd-daliadau eraill. Y budd-daliadau eraill hyn yw:

- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Atodiad i'r Anghyflogadwy
- Pensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Mam Weddw, a
- Budd-dal Analluogrwydd.

Ni fyddwch yn adeiladu Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad am y diwrnodau rydych chi neu eich partner (os ydych yn aelod o gwpl) yn cael un neu fwy o'r budd-daliadau sy'n berthnasol i incwm canlynol:

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, a
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, a
- Credyd Cynhwysol.

Am fwy o wybodaeth ar ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i

**www.gov.uk/deferring-state-pension**

Fel arall, os hoffech drafod eich opsiynau ar gyfer gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, gallech siarad â chynghorydd ariannol annibynnol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor hwn.

## Sicrwydd gofal iechyd os rydych yn byw mewn rhan arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu yn y Swistir

Os rydych yn byw mewn rhan arall o'r AEE neu yn y Swistir mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael gofal iechyd y telir amdano gan y DU os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU. Fodd bynnag, am y cyfnod y byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ni fydd y DU yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd gofal iechyd i chi. Bydd angen i chi wneud eich trefniadau eich hun.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.nhs.uk**

# Rhannu pensiynau

### Beth fydd yn digwydd i'm pensiwn os caf ysgariad neu os caiff fy mhartneriaeth sifil ei diddymu (terfynu'n gyfreithlon)?

Os cewch ysgariad neu os caiff eich partneriaeth sifil ei diddymu, neu os caiff eich priodas neu eich partneriaeth sifil ei dirymu, gall y llysoedd benderfynu sut y dylid rhannu eich holl 'asedau'. Byddant yn ystyried gwerth eich pensiwn, gan ei fod yn rhan o'ch asedau.

Os daw eich priodas i ben (drwy ysgariad neu ddirymiad), gallwch chi a'ch cyn-ŵr neu gyn-wraig rannu gwerth yr ail bensiynau y mae gennych chi a hwy hawl i'w cael (gweler isod). Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyplau o'r un rhyw y mae eu partneriaethau sifil neu briodasau wedi'u dirymu neu eu diddymu.

Mae rhannu pensiwn yn rhoi mwy o ddewis i chi a'r llysoedd ynghylch beth i'w wneud. Efallai nad oes rhaid i chi rannu eich hawliad ond mae'n opsiwn sydd ar gael i'r llysoedd ar gyfer cyplau sydd gyda hawl i ail bensiiwn fel:

- Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (SERPS neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth)
- pensiwn cwmni
- pensiwn cyfranddeiliaid
- pensiwn personol.

Nid yw rhannu pensiwn yn berthnasol i:

- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.
- cyplau a ddechreuodd weithrediadau ysgaru neu ddirymu cyn 1 Rhagfyr 2000
- cyplau sy'n gwahanu ond nad ydynt yn ysgaru nac yn diddymu (terfynu'n gyfreithiol) eu partneriaeth sifil.

### Rhagor o gyngor a gwybodaeth am rannu pensiwn pan ddaw eich priodas neu bartneriaeth sifil i ben

I gael gwybod mwy am sut y gallai hyn effeithio ar eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ac ail bensiynau eraill, gallech gael cyngor gan gyfreithiwr neu gynghorydd ariannol annibynnol (neu'r ddau). Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor hwn.

## Os byddaf yn gweithio dramor, a allaf gael Pensiwn y Wladwriaeth?

Os byddwch yn symud dramor i weithio cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai na fyddwch yn gallu talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am y blynyddoedd hynny y byddwch dramor. (Gall hyn effeithio ar eich hawl i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.)

Mae p'un a fydd rhaid i chi dalu'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dibynnu ar eich amgylchiadau (er enghraifft, y wlad lle rydych yn gweithio, am ba hyd y byddwch yno, p'un a yw eich cyflogwr yn gwmni o'r DU neu'n un tramor, a phatrwm eich gwaith). Os na fydd rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol pan fyddwch dramor, efallai y gallwch fod yn gymwys i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu gallwch wneud cyfraniadau gwirfoddol i ddiogelu eich pensiwn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn gan Gyllid a Thollau EM.

**www.gov.uk/national-insurance-if-you-go-abroad**

Ffôn: **+44 191 203 7010** (os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU) neu **0300 200 3506** (os ydych yn ffonio o'r DU)

HM Revenue & Customs
National Insurance and Employer Office
Individuals International Caseworker
BP1301
Benton Park View
Newcastle-upon-Tyne
NE98 1ZZ
United Kingdom.

## A allaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth dramor?

Fel arfer, gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i dalu ble bynnag y byddwch yn byw.

### Faint y byddaf yn ei gael?

Os byddwch yn mynd i fyw dramor yn barhaol pan fyddwch yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth, byddwch ond yn cael unrhyw gynnydd yn eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, os byddwch yn byw:

- mewn gwlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir, neu
- mewn gwlad sydd â threfniant â'r DU sy'n caniatáu'r cynnydd hwn.

I gael gwybod pa wledydd yw'r rhain ac i gael rhagor o wybodaeth am sut y telir pensiynau'r wladwriaeth y DU i bobl dramor, gallwch e-bostio
**tvp.internationalqueries@thepensionservice.gsi.gov.uk**

ffonio **0191 218 7777 +44 191 218 7777** os byddwch dramor, neu ysgrifennu at
The Pension Service 11
Mail Handling Site A
Wolverhampton
GREAT BRITAIN
WV98 1LW

## Dychwelyd i Brydain Fawr, neu gyrraedd yma

Os ydych newydd ddod i Brydain Fawr neu'n dychwelyd ar ôl cyfnod dramor, mae'r rheolau ar gyfer rhai budd-daliadau yn wahanol - hyd yn oed os oes gennych Basport Prydeinig. Am ragor o wybodaeth gallwch gysylltu â'r Ganolfan Pensiynau Rhyngwladol. Hefyd ceir gwybodaeth ar ein gwefan am sut y bydd byw mewn gwledydd gwahanol yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU, a sut y gwneir taliadau i bobl sy'n byw dramor.

## Beth yw swm tebygol fy Mhensiwn y Wladwriaeth

Mae dwy ffordd o gael gwybod faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallech ei gael:

- defnyddio cyfrifiannell Pensiwn y Wladwriaeth i gael amcangyfrif cyflym o'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, neu
- gwneud cais am ddatganiad Pensiwn y Wladwriaeth, a fydd yn rhoi amcangyfrif i chi o'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

I ddefnyddio'r cyfirfiannell, neu am fwy o wybodaeth ar sut i gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth ewch i

**www.gov.uk/calculate-state-pension**

### Os ydych yn agos iawn at neu dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu lai na 30 diwrnod ffwrdd ohono, ni allwch gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth . Am ragor o wybodaeth:

- ewch i **www.gov.uk/contact-pension-service** i gael hyd i'ch canolfan bensiwn leol
- ffôn **0345 60 60 265**, **0345 60 60 275** os ydych yn siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru
- ffôn testun **0345 60 60 285** (Saesneg), **0345 60 60 295** (Cymraeg), neu
- os ydych yn byw y tu allan i'r DU, ffôn **+00 44 191 218 7777**.

## Pensiwn y Wladwriaeth anghyfrannol ar gyfer pobl dros 80 oed

Os ydych dros 80 oed ac nad oes gennych Bensiwn y Wladwriaeth neu os mai dim ond Pensiwn y Wladwriaeth bach sydd gennych, mae'n bosibl y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth arbennig. Mae'n 'anghyfrannol' - sy'n golygu nad oes rhaid eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i'w gael. £67.80 yr wythnos yw'r Pensiwn y Wladwriaeth hwn ar gyfer 2014/15.

Byddwn yn talu hwn i chi:

- os ydych yn 80 oed neu'n hŷn
- os ydych yn byw ym Mhrydain Fawr ar yr adeg y byddwch yn gwneud y cais
- os ydych wedi byw ym Mhrydain Fawr am 10 mlynedd neu fwy yn ystod yr 20 mlynedd ers eich pen-blwydd yn 60 oed, ac
- os nad ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth, neu'n cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o lai na £67.80 yn 2014/15.

# Credyd Pensiwn

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gallwch gael Credyd Pensiwn. Mae Credyd Pensiwn wedi ei wneud i fyny o ddwy ran: Credyd Gwarantedig a Chredyd Cynilo.

Mae Credyd Gwarantedig yn gweithio drwy ychwanegu at eich incwm wythnosol gan swm penodol. Efallai y gallech gael mwy os, er enghraifft, rydych yn ddifrifol anabl, yn ofalwr neu gyda costau tai fel morgais.

I wneud cais am Gredyd Gwarantedig mae'n rhaid i chi fod wedi cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn. Mae hwn yn codi'n raddol yn unol â'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched i 65, a'r cynnydd pellach mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

I gael gwybod yr oed y gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn ewch i

**www.gov.uk/calculate-state-pension**

Os oes gennych bartner, gall un ohonoch fod o dan yr oedran hwn ond mae'n rhaid i'r person sy'n gwneud cais fod wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso.

Gall Credyd Cynilo roi arian ychwanegol i bensiynwyr sydd wedi cynilo rhywfaint o arian i helpu i ddarparu iddynt eu hunain mewn ymddeoliad. Yr oedran y gallwch gael Credyd Cynilo yw 65. Os ydych yn 65 neu drosodd ar hyn o bryd ac yn byw ym Mhrydain Fawr efallai bydd gennych hawl i Gredyd Cynilo.

Efallai y gallwch gael Credyd Cynilo a Chredyd Gwarantedig.

**Pwysig - newidiadau i Gredyd Cynilo**

Fel rhan o'r Ddeddf Pensiynau 2014, bydd y rhan Credyd Cynilo o Gredyd Pensiwn yn cau ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith bydd hyn yn cynnwys y rhai gyda phartner a gyrhaeddodd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o ddiogelwch yn cael ei roi i'r cyplau hyn a oedd yn cael Credyd Cynilo eisoes ar 6 Ebrill 2016.

# Deddf Cydnabod Rhyw 2004

Ar 4 Ebrill 2005 daeth cyfraith newydd i rym yn atal gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd wedi newid eu rhyw. Felly o'r dyddiad hwnnw, caiff hawl ceiswyr trawsrywiol i gael Pensiwn y Wladwriaeth ei seilio ar eu rhyw newydd os oes ganddynt Dystysgrif Cydnabod Rhyw lawn. Ar gyfer cyfnodau cyn y dyddiad hwnnw, caiff hawl ceiswyr trawsrywiol sy'n newid o fod yn ddynion i fod yn ferched ei seilio ar eu rhyw newydd os ydynt:

- wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched, ac
- wedi cael llawdriniaeth ailbennu rhywedd cyn y dyddiad hwnnw.

# Ble y gallaf gael mwy o help?

## Costau galwadau

Gallwch ddefnyddio'r cod **0845** i ffonio unrhyw o'n rhifau **0345**. Gofynnwch i'ch cwmni ffôn pa god sy'n rhatach i chi.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gallwch ofyn i'n cysylltydd i'ch ffonio'n ôl - rhowch eich rhif ffôn iddynt.

## Ffonau testun – os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu Gyngor ar Bopeth leol un.  Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

## Sut y gallaf gysylltu â chi?

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol am bensiynau, gallwch gysylltu â ni drwy:

- ffonio **0345 60 60 275** i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru (neu **0345 60 60 265** yn Saesneg). Os ydych yn ffonio o dramor, gallwch ffonio **+44 191 218 7777**
- ffôn testun: **0345 60 60 295** (Cymraeg) neu **0345 60 60 285** (Saesneg), neu **+44 191 218 7280** o dramor
- Gwefan: **www.gov.uk/state-pension**

## Lwfans Gofalwr

Gallwch gael gwybodaeth gan yr Uned Lwfans Gofalwr drwy ffonio **0345 608 4321** (ar gyfer ymholiadau cyffredinol am Lwfans Gofalwr neu i ofyn am becyn cais). Os oes gennych broblem gyda'ch lleferydd neu'ch clyw, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0345 604 5312**.

## Gwneud cais am Lwfans Gofalwr

I gael pecyn cais Lwfans Gofalwr, ffoniwch yr Uned Lwfans Gofalwr ar **0345 608 4321** (8.30am i 5pm dydd Llun i ddydd Iau, a 8.30am i 4.30pm ar ddydd Gwener). Mae gwasanaeth ffôn testun ar gael hefyd ar **0345 604 5312**. Gallwch anfon e-bost i'r Uned yn **cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk**

Neu wneud y cais ar-lein yn **www.gov.uk/carers-allowance** neu ysgrifennu am becyn cais i:

Carer's Allowance Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston
PR1 1HB

## Gwybodaeth am ofalu

Os ydych yn anabl, os oes gennych salwch hirdymor neu os ydych yn ofalwr, darllenwch ein taflenni manylach i bobl anabl, y rhai â chyflyrau iechyd a gofalwyr.

## Canllaw sylfaenol ar bensiynau

Mae Age UK (a sefydlwyd ar ôl i Help the Aged ac Age Concern uno) yn cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth am ddim am faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn, yn cynnwys incwm a phensiynau. I gael y wybodaeth hon neu i gael manylion cyswllt eich swyddfa Age UK leol, ffoniwch **0800 169 6565** neu ewch i **www.ageuk.org.uk**

Os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch gysylltu ag Age Scotland ar **0800 470 80 90** neu fynd i **www.ageuk.org.uk/Scotland**

Gallwch gael gwybodaeth gan Cyngor ar Bopeth (mae'r rhif yn eich llyfr ffôn) neu ar eu gwefan **www.citizensneudvice.org.uk** os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr. Os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch gysylltu â Citizens Advice Scotland neu fynd i **www.cas.org.uk**

# Rhestr termau

Gall pensiynau fod yn gymhleth. Dyma esboniadau o rai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiwn yn y daflen hon, neu rai y mae'n bosibl y byddwch yn eu darllen neu'n eu clywed wrth ymchwilio i bensiynau.

**Blwyddyn gymhwyso**

- Ers mis Ebrill 1978, ystyr blwyddyn gymhwyso yw blwyddyn dreth y mae person wedi cael (neu wedi cael ei drin fel petai wedi cael) enillion cymwys cyfwerth ag o leiaf 52 gwaith y Terfyn Enillion Is a bennwyd ar gyfer y flwyddyn honno. Ar gyfer y blynyddoedd treth 1975/76 i 1977/78, ystyr blwyddyn gymhwyso yw 50 gwaith y Terfyn Enillion Is wythnosol a bennwyd ar gyfer pob blwyddyn.
- Ar gyfer y cyfnod cyn mis Ebrill 1975, gwnaethom newid y cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyfradd unffurf ('stampiau') i nifer o flynyddoedd cymhwyso drwy rannu nifer y cyfraniadau a dalwyd (neu a gredydwyd) â 50. Mae terfyn ar y nifer hon. Mae hyn yn golygu na all y ffigur fod yn fwy na nifer y blynyddoedd mewn bywyd gwaith hyd at 5 Ebrill 1975.

**Budd-dal Ymddeol Graddedig**

Budd-dal sy'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol graddedig a dalwyd gan berson rhwng mis Ebrill 1961 a mis Ebrill 1975.

**Cyfraniadau Yswiriant Gwladol**

**Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1**

Telir y rhain gan bobl gyflogedig a'u cyflogwyr.

**Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2**

Telir y rhain gan bobl hunangyflogedig. Telir cyfraniadau Dosbarth 2 ar gyfradd unffurf wythnosol. Adolygir y gyfradd bob blwyddyn.

**Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3**

Cyfraniadau gwirfoddol yw'r rhain y gall pobl eu talu am flwyddyn dreth nad yw'n cyfrif fel blwyddyn gymhwyso ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

### Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Telir y rhain gan bobl hunangyflogedig ar ben eu cyfraniadau Dosbarth 2. Mae'r swm y mae'n rhaid iddynt ei dalu yn dibynnu ar elw eu busnes dros derfyn penodol (y Terfyn Elw Is). Nid yw cyfraniadau Dosbarth 4 yn cyfrif ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth nac unrhyw fudd-daliadau eraill.

### Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)

Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn seiliedig ar y blynyddoedd treth 1978/79 i 2001/02 gan gynnwys y blynyddoedd hynny.

### Cynnydd Dibyniaeth Oedolion

Cynnydd yn eich Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer eich gwraig, gŵr neu rywun sy'n gofalu am eich plant, os yw ef neu hi yn ddibynnol yn ariannol arnoch.

### Gohirio

Ystyr hyn yw gohirio gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth, neu benderfynu rhoi'r gorau i'w gael, hyd at adeg sy'n addas i chi.

### Terfyn Cronni Uwch

Y Terfyn Cronni Uwch yw'r terfyn uchaf ar gyfer enillion a ddefnyddir i weithio allan hawl person i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Y terfyn yw £40,040 y flwyddyn.

Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol a delir gennych y tu hwnt i'r Terfyn Cronni Uwch yn cyfrif tuag at Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

### Terfyn Enillion Is

Yr isafswm enillion wythnosol pan gaiff person ei drin fel petai'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol at ddibenion budd-dal. Rydym yn trin person sy'n cael credydau neu'n talu cyfraniadau gwirfoddol neu hunangyflogedig unffurf fel petai ganddo enillion ar y Terfyn Enillion Is ar gyfer pob wythnos.

# Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw hwn ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi.  Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ym mis Hydref 2014. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Mae rhagor o wybodaeth gan DWP am fudd-daliadau a phensiynau wedi'i chyhoeddi ar-lein.

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**

I gael gwybodaeth am bensiynau ewch i **www.gov.uk/state-pension**

(h) Hawlfraint y Goron.
ISBN 978-1-78425-304-2
**DWP026W** | f1.0 (Hydref 2014)